CYNGOR CYMUNED LLANFIHANGEL Y PENNANT

**Cofnodion o Gyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd Nos Fawrth y 12fed o Fai 2026 am 7.00yh yn y Ganolfan, Abergynolwyn.**

Presennol; Cyng. Elwyn Evans, Steve Lewis, Emrys Thompson, Gwynedd Roberts, Robert D Jones, Miriam Webb, Eleri Puw, Huw T Jones (Clerc).

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd Elwyn Evans.

Roedd ymddiheuriad gan Cyng Beth Lawton (Cyngor Gwynedd) a'r Cyng Dylan Jarman.

Aethpwyd ymlaen i dderbyn adroddiad blynyddol gan y Cadeirydd Elwyn Evans am y flwyddyn 2025-26.
Diolchodd yn fawr iawn i bawb am eu cyfraniad yn ystod y flwyddyn. Roedd y gwaith wedi parhau o ddefnyddio arian trethdalwyr yn gyfrifol ac effeithiol.

Cymerodd y Cyngor fantais o grantiau 'Gwynedd Ni' drwy gael meinciau, byrddau a photiau blodau yn Abergynolwyn, a oedd wedi harddu'r pentref.

Bu llawer o drafod efo Grwp Llechi Gwynedd ynglyn a gosod wagen o flaen y Ganolfan, ac roedd hyn bellach yn mynd yn ei flaen

Bu cynrychiolwyr o BCUHB gyda ni yn cyfarfod Ionawr, lle pwysleisiwyd mor bwysig yw cael buddsoddiad yn ysbyty Tywyn, ac ail-agor y ward.

Roedd y mynwentydd yn Llanfihangel y Pennant a'r Fedw wedi ei chadw yn daclus. Roedd rhai coed ym mynwent y Fedw wedi eu torri yn ystod y flwyddyn.

Edrychwyd ar ol y cae chwarae, a threfnwyd i gael arwyddion newydd yno.

Cyfranwyd i achosion lleol, ac ymatebwyd i faterion cynllunio ddaw o'r Parc Cenedlaethol.

Ymatebwyd ar faterion Priffyrdd, a llwybrau yn gyffredinol, a sicrhawyd fod unrhyw ymholiadau o'r cyhoedd yn cael eu hateb yn gyflym ac effeithiol. Hefyd gofalwyd am y toiledau.

Gofalwyd bod hyfforddiant ar gael i Gynghorwyr os oeddynt yn dymuno.

Diolchwyd i'r holl Gynghorwyr a'r Cyng Beth Lawton (Cyngor Gwynedd) am ei gwaith a'u cydweithrediad yn ystod y flwyddyn.

2. Nodwyd nad oedd unrhyw gais i gael cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

**Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 14eg o Ebrill** ar gynnig Cyng. Miriam Webb a'i eilio gan Cyng Steve Lewis.

3. **Materion yn codi**

a) **Materion Priffyrdd/llwybrau**.

Nodwyd fod ein ymholiad am broblem ceir yn parcio o flaen tafarn y Railway a mynedfa Stryd Llanegryn wedi ei basio ymlaen i'r Uned Traffig.

b) **Safle treftadaeth/Celf Cyhoeddus** – adroddwyd y gohebiaeth diweddaraf gan Bet Huws.

Roedd e-bost i law gan Jayne Myfanwy Mills ar ran Treftadaeth Gymunedol Abergynolwyn yn amlinellu eu cynlluniau, ac yn gofyn am gyfraniad o £200 tuag at gefnogi eu gwaith hyd nes y byddai'r ymddiriedolaeth wedi ei sicrhau cyllid eu hunain. Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd gadael hyn, a gofyn am dystiolaeth o'r ymddiriedolwyr wedi eu penodi, a chael mantolen fel sy'n ofynnol i'r Cyngor Cymuned cyn rhoi cyfraniadau.

c) **Stryd Tanybryn** – trafodwyd y diweddaraf, a byddai rhaid ystyried yn y cyfarfod nesaf. Byddai'r Clerc yn hysbysu Rachel Burgess o'r sefyllfa (a fu yn bresennol yn cyfarfod mis Mawrth)

**d)** **Cynllun trafnidiaeth Cymunedol** – nodwyd y diweddaraf, a chofnodion 27.04.26.

**e)** **Cronfa Cefnogi Cynghorau Cymuned** – Roedd dau amcangyfrif i law am sleid yn y cae chwarae drwy law Emrys. Penderfynwyd ar gynnig Cyng Miriam Webb a'i eilio gan Cyng Eleri Puw a chefnogaeth pawb mai dyma y prosiect fyddai gan y Cyngor o dan y gronfa eleni (uchafwm £5,500) ac y byddai rhaid cael y gweddill o gronfa'r Cyngor Cymuned. (byddai y cyfanswm oddeutu £10,000) Gwelwyd y gellid cael cymorth 'Tim Tacluso' Cyngor Gwynedd i wneud gwaith o docio gwrych/tacluso a thorri coed ar y darn tir ochr chwith o'r ffordd wrth ddod i'r pentref o ochr Tywyn.

**f)** **Coed i'w torri yn wal yr afon ger Heol y Dwr** – atgoffwyd am enwau 3 i roi amcangyfrif i wneud y gwaith yma ym mis Hydref eleni.

**g)** Adroddwyd fod siec i Yswiriant Zurich wedi mynd ar goll yn y post. Roedd y Clerc mewn cyswllt gyda'r cwmni. Addawodd Cyng Emrys Thompson i ganslo y siec, a byddai'r Clerc yn danfon un arall yn ddi-oed.

Gwelwyd fod rhaid symud ymlaen i ddiweddaru y mandate banc, a chael bancio ar-lein. Byddai hyn ar agenda y cyfarfod nesaf.

**4. Materion Cynllunio**

Nid oedd unrhyw faterion.

5. **Materion Cyllid.**

a) **Adroddwyd fod Cyfrifon 2025-26** bellach wedi bod drwy law yr archwilydd mewnol, a bellach wedi eu dychwelyd heb unrhyw ymholiadau. Fe'i cyflwynwyd yn ffurfiol I'r Cynghorwyr. Cadarnhwyd fod y cyfan yn gyflawn I'w pasio ymlaen I'r Archwilydd allanol maes o law. Nodwyd hefyd fod hysbysiad cyhoeddus wedi ei baratoi i fynd ar y wefan a'r hysbysfwrdd maes o law. .

Cadarnhwyd hefyd fod y claim y VAT am 2025-26 wedi ei gwbwlhau, ac roedd £2571.20 i law.

**h)** **Anfonebau**; - ar gynnig Cyng Emrys Thompson a'i eilio gan Cyng Gwynedd Roberts, cytunwyd i dalu y canlynol;

- Anfoneb RA Davies am dorri gwair y cae chwarae a mynwent Llanfihangel y Pennant - £680.

b) **Ceisiadau am arian**

- Urdd  - Cronfa Cyfle i Bawb – penderfynwyd peidio cyfrannu.

7.**Ethol Swyddogion 2026-27.**

**Cadeirydd** – ar gynnig Cyng Emrys Thompson a'I eilio gan Cyng Robert D Jones, cytunwyd yn unfrydol ar enw **Cyng Miriam Webb yn Gadeirydd am 2026-27.**

**Is- Gadeirydd  -** ar gynnig Cyng Gwynedd Roberts a'i eilio gan y Cyng Emrys Thompson, cytunwyd yn unfrydol ar enw **Cyng Eleri Puw yn Is- gadeirydd am 2026-27.**

**8. Cyflog a Thelerau y Clerc 2026-27**

Cadarnhawyd fod hyn wedi ei benderfynnu ar 13.01.26

9. **Cadarnhau dyddiadau gweddill cyfarfodydd Cyngor Llanfihangel y Pennant ar gyfer 2026-27.**

Cytunwyd i gyfarfod ar yr ail Nos Fawrth ym mhob mis, ag eithrio Awst a Rhagfyr, sef 9.06.26, 14.07.26, 8.09.26, 13.10.26, 10.11.26, 12.01.27, 9.02.27, a 9.03.27.

Byddai'r Clerc yn rhoi hyn ar wefan y Cyngor.

10. **Dosbarthwyd ffurflenni cofrestr buddiannau i'w cwbwlhau gan Gynghorwyr a chawsant eu dychwelyd.**

Cytunwyd yn unfrydol  i fabwysiadu y canlynol;

**Cod ymddygiad**

**Rheoliadau arianol a rheolaidau sefydlog**

**Asesiad risg mynwent y Llan a'r Fedw, ynghyd a'r Cae chwarae a'r materion ariannol y Cyngor** (a oedd wedi eu dosbarthu ymlaenllaw I'r Cynghorwyr)  Nodwyd man newidiadau

**Cofrestr asedau** –  a oedd wedi ei ddosbarthu ymlaenllaw i'r Cynghorwyr a chadarnhawyd y ffigwr o £19115.00 yn flaenorol, ac ychwanegwyd y meinciau, byrddau picnic a'r potiau blodau £4600 (cyfanswm felly £23740.

Hefyd mabwysiadwyd y polisiau eraill – **pryderon a chwynion, cyfle cyfartal, amgylcheddol, bioamrywiaeth, diogelu data a rhyddid gwybodaeth** ( sydd oll ar wefan y Cyngor)

11. **Cynrychiolaeth y Cyngor Cymuned ar bwyllgorau / sefydliadau allanol.**

Cadarnhawyd y canlynol;

Un Llais Cymru – Cyng Elwyn Evans a Emrys Thompson

Corff Llydoraethol Ysgol Craig yr Aderyn – Cyng Elwyn Evans

Y Ganolfan – Cyng Miriam Webb a Steve Lewis

Goruchwyliwr Mynwent y Llan – Cyng Robert D Jones

Goruchwyliwr Mynwent y Fedw a'r Cae Chwarae – Cyng Emrys Thompson.

Cartref Mari Jones – Cyng Emrys Thompson

12. **Adroddiad Cynghorydd Beth Lawton (Cyngor Gwynedd)**

    Roedd ymddiheuriad gan Cyng Beth Lawton y tro hwn.

13. **Adroddiad Cyng. Elwyn Evans , cynrychiolydd Un Llais Cymru.**

    Nod oedd adroddiad y tro hwn

14. **Gohebiaeth.**

a) **Materion mynwent Llanfihangel y Pennant** - atgoffwyd pawb am ohebiaeth Ellen Cockburn yng nghyswllt claddedigaethau mewn gorchudd, a chadarnhaodd y Clerc ei fod wedi trafod gyda Chyngor Gwynedd. Roedd angen mwy o wybodaeth, a byddai'r Clerc yn cysylltu eto

b) **Nodwyd sesiynau hyfforddiant Un Llais Cymru, a byddai'**r Clerc y neu dosbarthu i'r Cynghorwyr

c) Nodwyd wybodaeth am brosiect 'Perthyn' ar gyfer grwpiau Cymunedol, a byddai'r Clerc yn dosbarthu

15. **Unrhyw fater arall**

- Mynegwyd diolch diffuant gan bawb i'r Cyng Elwyn Evans am ei waith fel Cadeirydd dros y ddwy flynedd ciwethaf.
- Cytunwyd y byddai'r Cyngor Cymuned yn gwneud y tombola unwaith eto yn y Carnifal yn Abergynolwyn ar y penwythnos olaf Gorffennaf.
- Nodwyd diolch i law gan y Ganolfan am ddefnydd o'r cae chwarae ar gyfer y ras chwid flynyddol.

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF; Y GANOLFAN, ABERGYNOLWYN NOS FAWRTH 9fed Mehefin 2026 , 7.00y.h.**

**..........................................................................................................................**

**Minutes of the Annual Meeting of the Council held on Tuesday 12 May 2026 at 7:00pm at the Ganolfan, Abergynolwyn**

**Present:** Cllr Elwyn Evans, Steve Lewis, Emrys Thompson, Gwynedd Roberts, Robert D Jones, Miriam Webb, Eleri Puw, Huw T Jones (Clerk).

1. A warm welcome was extended to everyone by the Chair, Elwyn Evans.

Apologies were received from Cllr Beth Lawton (Gwynedd Council) and Cllr Dylan Jarman.

The annual report for 2025–26 was then presented by the Chair, Elwyn Evans.
He thanked everyone very much for their contributions during the year. Work had continued to ensure taxpayers' money was used responsibly and effectively.

The Council had taken advantage of "Gwynedd Ni" grants by obtaining benches, tables and flower pots in Abergynolwyn, which had enhanced the appearance of the village.

There had been extensive discussions with the Gwynedd Slate Group regarding placing a wagon in front of the Centre, and this was now progressing.

Representatives from BCUHB attended the January meeting, where the importance of investment in Tywyn Hospital and the reopening of the ward was emphasised.

The cemeteries at Llanfihangel y Pennant and Y Fedw had been kept tidy. Some trees at Y Fedw cemetery had been cut during the year.

The playground had been maintained, and arrangements made for new signs there.

Contributions had been made to local causes, and planning matters received from the National Park had been responded to.

Highways matters and footpaths generally had been dealt with, and it had been ensured that any public enquiries were answered quickly and effectively. The toilets had also been maintained.

Training opportunities had been made available for councillors if desired.

Thanks were given to all councillors and to Cllr Beth Lawton (Gwynedd Council) for her work and cooperation during the year.

2. It was noted that there had been no requests from members of the public to make presentations on agenda items.

The minutes of the meeting held on 14 April were confirmed on the proposal of Cllr Miriam Webb, seconded by Cllr Steve Lewis.

3. **Matters arising**

a) **Highways/footpath matters**
It was noted that the Council's enquiry regarding cars parking outside the Railway pub and at the entrance to Llanegryn Street had been passed to the Traffic Unit.

b) **Heritage site/Public Art** – the latest correspondence from Bet Huws was reported.

An email had been received from Jayne Myfanwy Mills on behalf of Abergynolwyn Community Heritage outlining their plans and requesting a contribution of £200 towards supporting their work until the trust secured its own funding.

Following discussion, it was decided to defer this and request evidence that trustees had been appointed, together with financial statements as required by the Community Council before any contribution was made.

c) **Tanybryn Street** – the latest situation was discussed and would need to be considered at the next meeting. The Clerk would inform Rachel Burgess of the situation (she had attended the March meeting).

d) **Community Transport Scheme** – the latest update and minutes of 27.04.26 were noted.

e) **Community Council Support Fund** – two quotations had been received for a slide at the playground through Emrys.

It was resolved, on the proposal of Cllr Miriam Webb and seconded by Cllr Eleri Puw with unanimous support, that this would be the Council's project under the fund this year (maximum £5,500), with the remainder to come from Community Council funds. (The total cost would be approximately £10,000.)

It was noted that assistance could be obtained from Gwynedd Council's "Tidying Team" to carry out hedge trimming, tidying and tree cutting on the land to the left-hand side of the road entering the village from the Tywyn direction.

f) **Trees to be cut at the river wall near Heol y Dŵr** – members were reminded of the three names to provide quotations for carrying out this work in October this year.

g) It was reported that the cheque sent to Zurich Insurance had been lost in the post. The Clerk was in contact with the company.

Cllr Emrys Thompson agreed to cancel the cheque, and the Clerk would send another immediately.

It was also noted that progress needed to be made in updating the bank mandate and arranging online banking. This would be on the agenda for the next meeting.

4. **Planning Matters**

There were no matters to discuss.

5. **Financial Matters**

a) It was reported that the 2025–26 accounts had now been examined by the internal auditor and returned without any queries. They were formally presented to the councillors.

It was confirmed that everything was complete and ready to be passed to the external auditor in due course.

It was also noted that a public notice had been prepared for publication on the website and noticeboard.

It was further confirmed that the VAT claim for 2025–26 had been completed and £2,571.20 had been received.

h) **Invoices** – on the proposal of Cllr Emrys Thompson and seconded by Cllr Gwynedd Roberts, it was agreed to pay the following:

- Invoice from RA Davies for grass cutting at the playground and Llanfihangel y Pennant cemetery – £680.

b) **Requests for funding**

- Urdd – "Opportunity for All" Fund – it was decided not to contribute.

7. **Election of Officers 2026–27**

**Chair** – on the proposal of Cllr Emrys Thompson and seconded by Cllr Robert D Jones, it was unanimously agreed that Cllr Miriam Webb would serve as Chair for 2026–27.

**Vice-Chair** – on the proposal of Cllr Gwynedd Roberts and seconded by Cllr Emrys Thompson, it was unanimously agreed that Cllr Eleri Puw would serve as Vice-Chair for 2026–27.

8. **Clerk's Salary and Terms 2026–27**

It was confirmed that this had been decided on 13.01.26.

9. **Confirmation of dates for the remaining Llanfihangel y Pennant Council meetings for 2026–27**

It was agreed to meet on the second Tuesday of each month, except August and December, namely:

9.06.26, 14.07.26, 8.09.26, 13.10.26, 10.11.26, 12.01.27, 9.02.27 and 9.03.27.

The Clerk would place these on the Council website.

10. Forms for the register of interests were distributed for councillors to complete and were returned.

It was unanimously agreed to adopt the following:

- Code of conduct
- Financial regulations and standing orders
- Risk assessments for Llan cemetery and Y Fedw cemetery, together with the playground and the Council's financial matters (which had been distributed in advance to councillors). Changes were noted.
- Asset register – previously circulated to councillors and the figure of £19,115.00 previously confirmed, with benches, picnic tables and flower pots worth £4,600 added (total therefore £23,740).

The following additional policies were also adopted:

- Complaints and concerns
- Equal opportunities
- Environmental policy
- Biodiversity
- Data protection
- Freedom of information

(all of which are available on the Council website).

11. **Representation of the Community Council on committees/external organisations**

The following were confirmed:

- One Voice Wales – Cllr Elwyn Evans and Emrys Thompson
- Governing Body of Ysgol Craig yr Aderyn – Cllr Elwyn Evans
- The Centre – Cllr Miriam Webb and Steve Lewis
- Supervisor of Llan Cemetery – Cllr Robert D Jones

- Supervisor of Y Fedw Cemetery and the Playground – Cllr Emrys Thompson
- Cartref Mari Jones – Cllr Emrys Thompson

12. **Report from Cllr Beth Lawton (Gwynedd Council)**

Apologies were received from Cllr Beth Lawton on this occasion.

13. **Report from Cllr Elwyn Evans, representative of One Voice Wales**

There was no report on this occasion.

14. **Correspondence**

a) **Matters relating to Llanfihangel y Pennant cemetery** – everyone was reminded of correspondence from Ellen Cockburn regarding burials in shrouds, and the Clerk confirmed he had discussed this with Gwynedd Council. More information was required, and the Clerk would make further contact.

b) One Voice Wales training sessions were noted, and the Clerk would distribute details to councillors.

c) Information regarding the "Perthyn" project for community groups was noted, and the Clerk would circulate it.

15. **Any Other Business**

- Sincere thanks were expressed by everyone to Cllr Elwyn Evans for his work as Chair over the past two years.
- It was agreed that the Community Council would once again run the tombola at the Abergynolwyn Carnival on the last weekend of July.
- Thanks were noted from the Ganolfan for the use of the playground for the annual fun run.

**DATE OF NEXT MEETING:**
The Ganolfan, Abergynolwyn – Tuesday 9 June 2026 at 7:00pm.